Cadw

# Croeso i Gastell Rhaglan

Dyma gastell godidog a godwyd gan Gymro

## Beth i'w weld yng Nghastell Rhaglan

1. Gwelwch ein harddangosfa y tu mewn i'n porthdy ar hanes y gaer palas hwn a drodd yn breswylfa regol.
2. Cewch flas ar safon arlwyo'r Tuduriaid wrth grwydro'r ceginau â'u ffyrnau, eu hagorfeydd gweini a'u llefydd tân enfawr.
3. Rhyfeddwch at y ffenestr oriel ysblennydd a gynlluniwyd i oleuo'r bobl a eisteddai wrth brif fwrdd y Neuadd.
4. Profwch yr awyrgylch yn selerau gwin William Herbert. Cafodd y rhain eu creu yn bwrpasol dros 500 mlynedd yn ôl a'u llenwi â gwinoedd da o fannau ledled Ewrop.
5. Crwydrwch lwybr y ddyfrffos, o'r cyfnod Jacobeaidd. Bu cerfluniau o ymerawdwyr Rhufeinig yn y cilfachau brics addurnedig ar un adeg.
6. Dringwch dŵr hynaf y castell i fwynhau golygfeydd panoramig arbennig. Chwalwyd y Tŵr Mawr hwn yn rhannol gan y Seneddwyr yn y Rhyfel Cartref fel na ellid ei ddefnyddio mewn brwydr eto.
7. Camwch yn ôl mewn amser — byddai'r gwesteion yn dod allan o'u hystafelloedd yn nhrefn pwysigrwydd ac yn dod i lawr y prif risiau, trwy Lys y Ffynnon ac i'r Neuadd.
8. Mynedfa/siop.
9. Toiledau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru

Cyfle i chi ymosod ar y castell, chwarae bowls gyda Siarl I a chymryd rhan yn chwilfa Llys y Ffynnon. Aiff ein gêmau realiti estynedig â chi yn ôl mewn amser.

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Raglan Croeso leaflet WELSH v3a.indd 1 07/05/2024 16:22